Adroddiad
Cynhadledd Cysylltu'r Cenedlaethau

Mawrth 2011

gan

Ar ran

Cymunedau'n Gyntaf Bro Ddyfi
Wedi ei ariannu gan Gronfa Cydlyniant Cymunedol
Llywodraeth Cynulliad Cymru

CYNNWYS

- **Cyflwyniad** **Tud 3**
  - Pryd
  - Pwy
  - Amcanion y diwrnod
  - Cefndir
  - Methodoleg

- **Rhaglen gweithgareddau cynhadledd** **tud 6**
  - Rhaglen
  - Disgrifiad o'r gweithgareddau
  - Adolygu'r rhaglen

- **Tudalen Ganlyniadau** **tud 9**
  - Mater 1: Archwilio agweddau
  - Mater 2: Canfyddiad pobl iau a hŷn o'u hunain
  - Mater 3: Canfyddiad pobl ifanc a hŷn o'i gilydd
  - Mater 4: Beth sy'n gyffredin rhwng cenedlaethau gwahanol?
  - Mater 5: Pethau sy'n rhwystro'r cenedlaethau rhag cyd-dynnu, a goresgyn y rhwystrau hynny

- **Casgliadau a Chrynodeb** **Tud 27**

Cyflwyniad

Pryd: Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar 23ain o Fawrth ym Machynlleth.

Pwy: Gwahoddwyd 35 o bobl gan Gymunedau'n Gyntaf Bro Ddyfi i fynychu ymgynghoriad wedi ei gynnal yn Ysgol Bro Ddyfi.

Roedd y gynhadledd yn tynnu at eil gilydd 16 o bobl ifanc rhwng 11 a 15 mlwydd oedd o Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth ac 19 o oedolion dros 50 oed o 4 grŵp a chymuned wahanol : Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf leol, Prifysgol y Drydedd Oes, Meddwl am Gerddoriaeth a Llanbrynmair.

Mae ein diolch yn mynd allan i bawb a gymrodd rhan frwdfrydig yn y gynhadledd ac i Richard Roberts o Gymunedau'n Gyntaf Bro Ddyfi am gasglu'r grwpiau gwahanol at ei gilydd.

Amcanion y diwrnod:

- ✧ I ddarganfod canfyddiad pobl ifanc o bobl hŷn
- ✧ I ddarganfod canfyddiad pobl hŷn o bobl ifanc
- ✧ I ddarganfod canfyddiad pobl ifanc o'u hunain, a sut maent yn credu bod pobl eraill yn eu gweld.
- ✧ I ddarganfod canfyddiad pobl hŷn o'u hunain, a sut maent yn credu bod pobl eraill yn eu gweld.
- ✧ I archwilio tir cyffredin rhwng y cenedlaethau.
- ✧ I ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer newid canfyddiadau

Cefndir:
Ariannwyd y gynhadledd a'r ymgynghoriad rhwng cenedlaethau gan Gronfa Cydlyniant Cymunedol y Llywodraeth Cynulliad a chafodd ei gynnal ar ran Cymunedau'n Gyntaf Bro Ddyfi.
Daeth y gynhadledd i fodolaeth o ganlyniad i gais i'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol i gynnal digwyddiad a fyddai'n dod â grwpiau ieuenctid a grwpiau o bobl hŷn at ei gilydd i drafod ystrydebau a chanfyddiadau o wahanol genedlaethau ac i edrych ar ffyrdd o gyflawni newid a gweithio gyda'i gilydd.

Nod allweddol yn y gynhadledd oedd adlewyrchu ac adeiladu ar hunaniaeth a'r ymdeimlad o berthyn cymunedol drwy ddod â'r grwpiau yma at ei gilydd a'r rhoi'r cyfleoedd iddynt rannu syniadau, i eirio pryderon a datblygu synnwyr cryfach o gymuned ac undod.
Nod allweddol arall oedd dechrau datblygu cynllun cyfrannol i'r dyfodol a fyddai'n ffocysu ar yr hyn sy'n dod â'r grwpiau yma at ei gilydd yn hytrach na ffocysu ar yr hyn sy'n eu rhannu.

Menter gymdeithasol o Gymru yw Dynamix sydd yn darparu gwasanaethau hyfforddiant,

hwyluso ac ymgynghori ac mae wedi adeiladu enw da yn y maes hwn dros y 21 mlynedd o'i bodolaeth. Mae Dynamix yn arbenigo mewn gweithio gyda phobl ifanc a grwpiau cymdeithasol gan ddefnyddio gweithgareddau hwyl a chyfranogol i gysylltu yn gynhwysol. Mae Dynamix o dan gytundeb i gynnal yr ymgynghoriad hwn ar ran Cymunedau'n Gyntaf Bro Ddyfi.

Methodoleg:
Wrth hwyluso cynhadledd fel hon, defnyddia Dynamix weithgareddau ymgynghorol a chyfranogol i sicrhau fod pobl ifanc ac oedolion yn teimlo eu bod yn gallu rhoi eu barn. Mae'r gweithgareddau wedi eu dylunio i fod yn hwyl ac i gadw diddordeb pawb yn y broses. Defnyddir amrywiaeth o dechnegau er mwyn cynnig darpariaeth rhoi barn sydd at ddant pawb, p'un ai bo hynny yn gorfforol, weledol, ar lafar mewn grwpiau mawr neu fach neu mewn modd ysgrifenedig, ac nid yw'r gweithgareddau yn dibynnu ar lefelau llythrennedd uchel na lefel hyder uchel. Defnyddir gemau i sicrhau fod yr awyrgylch yn un positif a nwyfus ac i gydbwyso'r gweithgareddau cryf, myfyrgar gyda'r rhai ysgafn llawn hwyl.

Bydd hyn, gobeithio, yn golygu fod y cyfranogwyr yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddigon hyderus i gymryd rhan gyflawn yn y profiad, i deimlo yn rhan ohono ac i wybod fod eu meddyliau a'u barn yn cael eu clywed – ac yn cael eu cyfri. Yn ogystal, mae hefyd yn bwysig pwysleisio nad yw'r fethodoleg hon yn rhoi ymatebion sydd yn cynrychioli unrhyw grŵp mewn unrhyw ffordd, na ddylid defnyddio'r canlyniadau yn y ffordd yma neu e dehongli yn y ffordd yma, a bod y wybodaeth wedi ei gasglu mewn ffordd ansafonol felly nid yw dadansoddiad ystadegol yn bosib. Yn hytrach, mae'n rhoi naratif ansoddol gyfoethog, gwelediad defnyddiol a gwybodaeth werthfawr, a phrofiad cadarnhaol i'r rhai sydd yn cymryd rhan.

Mae Dynamix yn tynnu ar ystod o weithgareddau sydd wedi eu profi dros nifer o flynyddoedd a cheir prawf mai Dynamix yw'r mudiad arweiniol yn y maes hwn yn y llyfrau y maent wedi eu cyhoeddi ar y fethodoleg hon: "Participation: Spice it Up", "Rights: Spice 'em up" a "Cyfranogi: Bywiogi'r Ifanc". Yn ogystal â defnyddio methodoleg sydd wedi ei brofi mae Dynamix yn ymfalchïo ar fod yn greadigol ac yn addasol er mwyn sicrhau bod dulliau ffres yn cael eu defnyddio ac yn ateb anghenion y darn o waith.

Caiff methodoleg Dynamix ei atgyfnerthu gan werthoedd cryf yn unol â bod yn gydweithfa. Mae Dynamix hefyd yn eiriolwyr cryf o'r 7 Egwyddor Cyfranogaeth adnabuwyd gan bobl ifanc ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cred Dynamix fod yr egwyddorion yma yn addas ar gyfer cyfranogwyr o bob oed.

Ymrwymiad Dynamix i'r rhain yn unol â Chynhadledd Rhwng Cenedlaethau 2011:

Gwybodaeth: Rhaid i'r wybodaeth a'r gweithgareddau fod yn addas i'w hoedrannau ac yn rhwydd i bawb ei ddeall. Bod yn agored ac yn glir am yr hyn rydym yn ei wneud a pham er mwyn sicrhau fod gan bawb digon o wybodaeth i gymryd rhan gyflawn. Rydym yn glir am y gwahaniaeth y gall cymryd rhan ei wneud, i bwy y byddwn yn rhoi'r wybodaeth

y casglwn a pha newidiadau y gallai ddigwydd o ganlyniad i'w rhan yn y gynhadledd.

Eu dewis nhw*:* Dylai cyfranogwyr fod yn gallu penderfynu p'un ai eu bod eisiau cymryd rhan. Ar ôl rhoi'r wybodaeth ar y dechrau, rydym yn eu hymgynghori ar sut y byddent yn hoffi cymryd rhan ac ym mha ffordd. Defnyddiwn weithgareddau sydd yn galluogi pobl i gymryd rhan cymaint ag y maent eisiau.

Dim Gwahaniaethu*:* Rydym yn sicrhau fod pawb yn teimlo bod croeso iddynt a defnyddiwn weithgareddau sydd yn galluogi pawb i gymryd rhan – beth bynnag yw eu hanghenion a'u diddordebau. Rydym yn argymell cynrychiolaeth gyfartalog dda o'r bobl yr ydych yn ei hymgynghori.

Fe wnei di elwi ohono: Rydym yn defnyddio gweithgareddau a gemau llawn hwyl i sicrhau fod cyfranogwyr yn mwynhau cymryd rhan. Rydym yn hysbysu'r cyfranogwyr ac yn gwerthfawrogi eu barn, sydd yn eu hawdurdodi nhw ac yn adeiladu ar eu hyder er mwyn eu bod yn cael elw o gymryd rhan.

Parch: Rydym yn rhoi cyfle i bawb gael dweud eu dweud drwy ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau i gynyddu eu gallu i gymryd rhan. Rydym yn glir iawn bod eu barn, syniadau, golwg a phrofiadau yn bwysig ac rydym yn eu parchu nhw, yn eu cymryd o ddifrif ac yn eu trin yn deg.

Adborth*:* Rydym yn glir am y gwahaniaeth y gall eu cyfraniad ei wneud a sut bydd eu syniadau yn cael eu defnyddio. Rydym yn argymell fod gan bawb fynediad i'r adroddiad ac yn cefnogi'r cynhyrchiad o fersiwn addas i bobl ifanc o unrhyw adborth.

Gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio*:* Rydyn yn cymryd o ddifrif yr egwyddor fod y syniadau y mae cyfranogwyr yn eu rhannu yn cael eu defnyddio i wneud gwahaniaeth yn y penderfyniadau sydd yn cael eu gwneud yn dilyn y gynhadledd.

Rhaglen o Weithgareddau'r Gynhadledd

Gweithgaredd	Pwrpas / Materion a Godwyd
Helo, Amcanion	I sicrhau fod pawb yn ymwybodol o bwrpas y diwrnod
Holiadur Dechrau	Mater: Canfyddiad pobl hŷn ac ifanc o'u hunain Mater: Canfyddiad pobl hŷn ac ifanc o'i gilydd
Gwneud iddo Weithio	I roi perchnogaeth y diwrnod i'r rhai sydd wedi mynychu
Archipelagos a Gohebu	I annog cyfranogwyr i gymysgu a dod i nabod ei gilydd
Darganfyddwr Barn	Mater: Archwilio agweddau
Jig-so	Mater: Beth sydd yn gyffredin rhwng y cenedlaethau
Corff mewn Bocs	Mater: Canfyddiad pobl hŷn ac ifanc o'u hunain
Brics yn y Wal	Mater: Pethau sy'n rhwystro'r cenedlaethau rhag cyd-dynnu, a goresgyn y rhwystrau hynny
Llythyr i Ti Dy Hun	Mater: Pethau sy'n rhwystro'r cenedlaethau rhag cyd-dynnu, a goresgyn y rhwystrau hynny
Holiadur Diwedd	Mater: Canfyddiad pobl hŷn ac ifanc o'u hunain Mater: Canfyddiad pobl hŷn ac ifanc o'i gilydd

Disgrifiad o'r Gweithgareddau

Holiadur
Gan mai un o amcanion y gynhadledd hon oedd edrych ar agweddau a chanfyddiad grwpiau oedran gwahanol a mesur i weld a oeddent wedi newid, fe gymrodd pob cyfranogwr holiadur ar ddechrau a diwedd y gynhadledd.

Gwneud iddo Weithio
Gweithgaredd trafod cyflym lle'r oedd cyfranogwyr yn trafod, ymysg ei gilydd ac yn rhoi adborth i'r hwyluswyr, y ffordd y byddent yn hoffi i'r gynhadledd gael ei gynnal e.e. Nifer o doriadau, iaith, llunio'r cyflymder, sut i gadw sylw a ffocws ayb.
Mae hyn yn creu synnwyr o gydberchnogaeth o'r digwyddiad yn ogystal â chynllun cytunol o reolau sylfaenol ar gyfer y diwrnod.

Archipelegos
Gweithgaredd sydd yn annog pobl i symud, i siarad gyda'i gilydd a dod i adnabod ei

gilydd. Gofynnir i gyfranogwyr drefnu eu hunain yn ôl criteria gwahanol e.e. pellter a deithiwyd, mis eu pen-blwydd, yn ôl y wyddor ayb, ac yna cymryd y cyfle i ddarganfod darn o wybodaeth am y bobl bob ochr iddynt. Gêm torri'r iâ da.

Gohebwyr
Yn dilyn yr Archipelagos, mae cyfranogwyr yn cael y cyfle i rannu'r wybodaeth maent wedi ei ddysgu am y cyfranogwyr eraill. Mae'n gwneud i gyfranogwyr deimlo bod y cyfranogwyr eraill yn eu gwerthfawrogi ac yn creu cydlyniad grŵp.

Darganfyddwr Barn
Gweithgaredd i feithrin trafodaeth. Caiff pob cyfranogwr un o nifer o daflenni Darganfyddwr Barn gyda datganiad wedi ei ysgrifennu arno, ac yna gofynnir iddynt gyfweld â gweddill y cyfranogwyr. Dylunnir y datganiadau i ysgogi trafodaeth ac atebir pob ateb gyda Cytuno'n Gryf/Cytuno/Dim Barn/Anghytuno/Anghytuno'n Gryf. Mae hwn yn cyferbynnu yn erbyn holiadur traddodiadol gan fod pob person yn gofyn un cwestiwn yn unig ac mae pob person yn yr ystafell yn cymryd rhan, gan greu bwrlwm o egni..

Jig-so
Gweithgaredd a ddefnyddir i rannu pobl i grwpiau amrywiol ac fel casglwr gwybodaeth. Caiff pob cyfranogwr ddarn o jig-so, rhaid iddynt ddarganfod y cyfranogwyr eraill sydd yn dal darnau eraill y jig-so, ffitio'r darnau yna dilyn y cyfarwyddiadau sydd wedi eu hysgrifennu ar y jig-so gorffenedig.

Corff mewn Bocs
Gweithgaredd casglu gwybodaeth mewn grwpiau llai, sydd yn galluogi lleisiau tawelach, llai hyderus i gael eu cofnodi. Rhoddwyd darn mawr o bapur i bob grŵp gydag amlinelliad person arno. Tu fewn i'r corff maent yn ysgrifennu rhestr o'u canfyddiad o'u hunain, ac ar y tu allan maent yn rhestru canfyddiadau pobl eraill. Er mai gweithgaredd ysgrifenedig yw hwn, mae'r grwpio o gyfranogwyr yn galluogi'r rhai sydd yn hyderus ac yn hapus gyda'i sgiliau ysgrifenedig i gymryd yr arweiniad drwy gopïo syniadau pawb arall.

Brics yn y Wal
Gweithgaredd sydd yn rhoi cyfle i grwpiau bychan o gyfranogwyr i restru'r rhwystrau i nod/gwasanaeth/gweithgaredd/gôl drwy adeiladu rhwystr corfforol wedi ei wneud o friciau card. Mae rhwystr wedi ei ysgrifennu ar bob bric (gan y cyfranogwyr). Unwaith y mae'r rhwystr wedi ei adeiladu gwahoddir y cyfranogwyr i gymryd y briciau i ffwrdd ar yr amod eu bod yn ysgrifennu ffordd o amgylch/ateb posib ar gefn y cerdyn.
Fel uchod, er mai gweithgaredd ysgrifenedig yw hwn, mae'r grwpio cyfranogwyr yn galluogi'r rhai sydd yn hyderus a hapus gyda'i sgiliau ysgrifenedig yn cymryd yr arweiniad drwy gopïo syniadau pawb arall.

Llythyr i Ti Dy Hun
Gweithgaredd tawel personol sydd yn galluogi cyfranogwyr i adlewyrchu yn unigol ar y diwrnod a gwneud ymrwymiad tuag at gydlyniad rhwng cenedlaethau. Bydd y llythyrau yma yn cael eu danfon i'r cyfranogwyr mis wedi'r gynhadledd.

Adolygu'r Rhaglen

Cynhaliwyd y gynhadledd yn Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth a fe'i cynhaliwyd fel digwyddiad dwyieithog gyda mwyafrif y deunyddiau a'r trafodaethau yn cael eu cyflwyno yn y Gymraeg a'r Saesneg. Oherwydd cyfyngiadau amser rhaid oedd addasu a chywasgu rhai gweithgareddau wrth i'r dydd fynd yn ei flaen, ond cyflawnwyd pob nod a mwynheuodd pawb y diwrnod.

Ar ôl cyflwyniad gan Gymunedau'n Gyntaf Bro Ddyfi a holiadur byr ar ganfyddiadau cenedlaethau gwahanol, dechreuodd y diwrnod gyda nifer o weithgareddau torri'r iâ a gemau enwau, gyda'r nod o annog cyfranogwyr i gymysgu a dod i nabod ei gilydd fel paratoad i drafodaethau yn ystod y diwrnod. Fe wnaeth bawb gymryd rhan a mwynhau'r broses.

Ar ôl toriad byr symudom ymlaen i weithgareddau oedd yn archwilio'r pethau tebyg a'r gwahaniaethau rhwng y cenedlaethau. Cafwyd trafodaeth ddiddorol am atgofion plentyndod ac roedd yn grêt i weld pobl o oedrannau gwahanol yn cymharu gemau a gweithgareddau ac yn archwilio'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhyngddynt.

Yn y sesiwn nesaf rhannwyd y grŵp i gategorïau yn ôl oedran ac archwiliom ganfyddiadau'r cyfranogwyr o'u hunain. Roedd digon a thrafodaeth o amgylch y byrddau wrth i bobl ystyried sut mae'r cyfryngau/cymdeithas/cymuned yn ei gweld neu yn eu labelu, yna'n dilyn cafwyd trafodaeth ar y labeli yr hoffent eu cyflwyno am y grŵp oedran y maent yn perthyn iddo.

Yn rhan olaf y diwrnod, ar ôl cinio, roedd y cyfranogwyr yn ystyried y pethau sy'n rhwystro'r cenedlaethau rhag cyd-dynnu a'r ymdeimlad o gymuned. Unwaith eto gofynnwyd i bobl eistedd mewn grwpiau bychan a rhannu syniadau. Mae'n werth nodi fod y rhestr a luniwyd gan y cyfranogwyr yn un go fawr, ond roedd hyn yn wir am yr atebion posib hefyd. Mae hyn yn dynodi fod y cyfranogwyr wedi eu hysgogi i wneud gwahaniaeth ac i gymryd rhan mewn unrhyw gynlluniau rhwng cenedlaethau eraill. Adlewyrchwyd hyn hefyd yn y weithgaredd 'llythyr i ti dy hun'.

Ar y cyfan, aeth y diwrnod yn dda ac roedd y cyfranogwyr yn dweud iddynt fwynhau'r diwrnod a'r broses.

Canlyniadau:

Mater :	**Archwilio Agweddau.**
Gweithgaredd:	**Darganfyddwr Barn.**

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr rhoi eu barn ar 7 datganiad. Isod gellir gweld y datganiadau a'r swm cyfatebol i farn y cyfranogwyr yn ogystal ag unrhyw sylwadau.

Datganiad: Machynlleth yw'r lle gorau i fyw				
Cytuno'n Gryf	**Cytuno**	**Dim Barn**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n Gryf**
8	**12**	**4**	**7**	**12**
SYLWADAU: • **Dim**				

Datganiad: Nid yw Ymgynghoriadau yn newid unrhyw beth				
Cytuno'n Gryf	**Cytuno**	**Dim Barn**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n Gryf**
0	**2**	**10**	**15**	**5**
SYLWADAU: • **Mae gweithio gyda'n gilydd yn gweithio.** • **Fe ddylent ymgynghori, nid mynd i ryfela.**				

Datganiad: Dylai rhai llefydd fod yn 'oedolion yn unig' neu 'plant yn unig'				
Cytuno'n Gryf	**Cytuno**	**Dim Barn**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n Gryf**
7	**11**	**3**	**5**	**5**
SYLWADAU: • **Dim**				

Datganiad: Does gan oedolion ddim byd i'w wneud				
Cytuno'n Gryf	**Cytuno**	**Dim Barn**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n Gryf**
3	**1**	**5**	**6**	**20**
SYLWADAU: • **Dim**				

Datganiad: Ni ddylai plant weithio tan eu bod yn 14				
Cytuno'n Gryf	**Cytuno**	**Dim Barn**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n Gryf**
11	**10**	**1**	**16**	**6**
SYLWADAU: • **Mae angen addysg ar blant cyn gwneud gwaith proffesiynol** • **Yn iawn yn yr ardd** • **Dibynnu ar y gwaith**				

Datganiad: Mae oedolion angen amser hamdden				
Cytuno'n Gryf	**Cytuno**	**Dim Barn**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n Gryf**
13	**4**	**1**	**1**	**6**
SYLWADAU: • **Dim**				

Datganiad: Mae diffyg cymhelliant gan bobl ifanc i newid pethau				
Cytuno'n Gryf	**Cytuno**	**Dim Barn**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n Gryf**
0	**9**	**1**	**17**	**14**
SYLWADAU: • **Y bobl ifanc oedd yn teimlo bod ganddynt ddiffyg cymhelliant**				

NODER:

- Roedd y nifer o gyfranogwr a gymrodd rhan yn y gweithgaredd hwn yn cynnwys gweithwyr Cymunedau'n Gyntaf Bro Ddyfi yn ogystal â'r 35 a wahoddwyd.
- Nid oedd pob cyfranogwr wedi ateb pob cwestiwn yn yr amser a neilltuwyd, sydd yn esbonio'r gwahaniaeth yn y niferoedd ar gyfer bob cwestiwn.

Mater :	**Beth sydd yn gyffredin rhwng y cenedlaethau**
Gweithgared**d:**	**Jig-so**

Gofynnwyd i bob cyfranogwr rhestru 5 gêm yr oeddent yn ei chwarae o dan 10 mlwydd oed. Isod gwelir rhestr o'r gemau yn ôl eu poblogrwydd. Mae'r rhif yn dynodi sawl gwaith y mae'r gêm yn cael ei gyfeirio ato gan gyfranogwyr gwahanol

Gemau y chwaraeom pan yn 10

CHWARAEON		GEMAU BWRDD/ CARDIAU		CHAWARAE CYFFREDINOL		ARALL	
Pêl-droed	10	**Monopoli**	5	**Tig/Tag**	13	**Delwau**	2
Rownderi	7	**Draughts**	4	**Hopscotch**	10	**Rasio beiciau**	1
Rygbi	3	**Scrabble**	3	**Cuddio**	10	**Pasio'r parsel**	1
Pêl-Rhwyd	2	**Snakes & Ladders**	2	**Sgipio**	7	**Tippy cat**	1
Badminton	2	**Dominos**	1	**Mob the den**	4	**Hopping Charlie**	1
Criced	2	**Marblys**	1	**Gwneud ffau**	3	**Tin Can Topper**	1
Tenis Bwrdd	2	**Connect 4**	1	**Bulldogs**	3	**Kingy**	1
Polo	2	**Ludo**	1	**Stuck in the mud**	2	**Clubs**	1
Criced Ffrengig	2	**Gwyddbwyll**	1	**Sledio**	2	**Helfa Drysor**	1
Pêl-droed Americanaidd	2			**Queeny Queeny**	1	**Wink murder**	1
Dodgeball	2			**Kiss chase**	1	**Indian and the tippe**	1
Tenis	2			**Mr Blaidd**	1	**Postmans knock**	1
Rhas Sachau	2			**Ymladd Dŵr**	1	**Squeak piggy squeak**	1
				Actio	1	**Red letter**	1
				Tŷ	1	**Dou's house game**	1
				Barbies	1	**Blind Mans Bluff**	1
				Gwisgo i fyny	1	**Farmers in the den**	1
				Beicio	1	**Grandma's footsteps**	1
				Lego	1	**Gameboy**	1
				Cacennau Mwd	1	**Trampolîn**	1
				Cerdded	1	**Môr-ladron**	1
						Dabs	1

Ail ran y jig-so oedd rhestru hoff lefydd i'w hymweld. Dangosir y rhestr isod.

Hoff lefydd i'w hymweld

Fflorida	Seiberofod	Caerdydd	Abermaw
Yr Ardd	Lolfa	San Ffagan	Petra
Old Trafford	Tŷ Nain	Aberdyfi	Venzuela
Stablau Ceffyl	Sbaen	Blackpool	Gwersyll Cae Du
Conwy	America	Gerddi Botaneg Cenedlaethol	Cader Idris
Stamford bridge	Bala	Tafowern	Llundain
Nantysgolion	Portofino	Cylch Cerrig Avebury	Ynys Hir
Minffordd	Ynys Môn	Y traeth	Yr Eidal
Llanbrynmair	Yr Eidal	Ffrainc	Penffordd Las
Yr Almaen	Abertawe	Manceinion	Berlin





Mater :	**Canfyddiad pobl ifanc a hŷn o'u hunain**
Gweithgaredd:	**Corff mewn Bocs.**

Rhoddwyd cyfranogwyr mewn grwpiau bychan yn ôl oed (grwpiau dan 25 mlwydd oed a grwpiau dros 50 oed). Gofynnwyd iddynt lenwi'r gwagle tu allan i'r corff gyda sut y maent yn teimlo bod eu grŵp oedran yn cael eu gweld.
Yn ail ran y gweithgaredd gofynnwyd iddynt lenwi'r gwagle y tu fewn i'r corff gyda sut y byddent yn hoffi bod eu grŵp oedran yn cael eu gweld.
Yn olaf gofynnwyd i'r grwpiau gymryd taith o amgylch yr ystafell i edrych ar y taflenni eraill er mwyn edrych am bethau tebyg a gwahanol y grwpiau oedran gwahanol.

Pobl rhwng 11-25

Mae cymdeithas yn ein gweld fel ...		**Rydym eisiau cael ein gweld fel ...**
CADARNHAOL	**NEGYDDOL**	Cyfeillgar
Cŵl	Hurt	Cyfeillgar
Cŵl	Hurt	Cyfeillgar
Cŵl	Plant Anaeddfed	Cyfeillgar
Cyfeillgar	Ddim yn gall	Annibynnol
Cyfeillgar	Anghyfrifol	Dibynadwy
Poblogrwydd	Plentynaidd	Aeddfed a chall
Talentog	Twp	Difrifol
Hiwmor	Heb addysg	Difrifol
Doniol	Annibynadwy	Deallus
Personoliaeth	ASBO	Effeithlon
Opiniynllyd	ASBO	Cyfrifol
	Gwrthgymdeithasol	Yn cymryd rhan
NIWTRAL	Druggies	Cariadus
Difrifol	Cyffuriau	Yn rhydd
Od	Fag heads	Doniol
Ifanc	Treisgar	Hurt
Yn rheoli	Hoodies	Plentynnaidd
Yn mynd drwy laslencyndod	Chav	Rhywiol
Hoyw	Alcoholig	Actif
Cymysglyd	Slwtennod	Rebel
Yn ceisio bod yn ddu/Americanaidd	Arogli'n wael	Dydyn ni ddim yn hoffi hoodies
	Troseddwyr Ifanc	chwaith
	Drwg	Digonol
	Hipis	
	Blin	
	Agwedd wael	

Pobl dros 50 mlwydd oed

Mae cymdeithas yn ein gweld fel ...	Rydym eisiau cael ein gweld fel ...
CADARNHAOL	Disglair
Rhywun rydych yn ei edmygu	Yn dal i wneud cyfraniad
Rhywun yr hoffech dyfu i fod fel	Does dim ots beth mae pobl eraill yn ei feddwl, dim ond fy ffrindiau
Ifanc	Ysgogol
Cyfeillgar	Hwyl
NIWTRAL	Rhybudd
Call	Pan fyddaf yn hen byddaf yn gwisgo porffor
Cyfrifol	Goddefgar
Gwisg Gonfensiynol	Hwyl
Wedi setlo	Digon i'w gynnig
NEGYDDOL	Profiad
Past it	Calon Ifanc
Diffyg trugaredd	Doethineb
Gobeithio na fyddwn yn tyfu i fod fel nhw	Creadigol
Beirniadol	Egnïol
Rhy hen iddi	Mwynhad
Diflas	Ni ddylai oed fod yn rhwystr
Diamynedd	Cymydog
Safonau gwahanol	Yn gofalu
Byrdwn ar gymdeithas	Dawnus
Diamynedd	Gwalch Hoffus
Barnu nad ydynt yn ddiddorol	Hapus
Hen	Rhywiol
Yn sicr ein ffordd	Cymdeithasol
Byw'n rhy fyr	Hyblyg
Llai golygus	Fel pawb arall
Yn gwynto	Gyda'r sgiliau i basio ymlaen
Moel	Cymysgwr da
Llwyd	Cyfeillgar
Hen Ffasiwn	Yn gofalu
Allan ohoni	Gonest
Heibio ei ddyddiad gorau	Ymwybodol
	Cyfrifol

Noder: Mae'r ymatebion i sut y mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gweld wedi eu rhannu i Cadarnhaol, Negyddol a Niwtral gan Dynamix ar ôl y gynhadledd.


Ben
Active
Hoodies
uneducated
Wind
Ars 13
bad
atatude
lippies
ASBOs
involved
sufficient
efficient
friendly
we all hate Malachi
Drugs
young offenders
Old
we also don't
Sensible
Intelligent
Contused
thik
Slags
anti-social
opinionated
badly smelling
imature
trying 2 be black


73 - 86
JUDGED AS NOT INTERESTING
OLD
SET IN WAYS
SHORT LIVED
RESPONSIBLE
CONSCIOUS
HONEST
CARING
FRIENDLY
FRIENLY + RESPONSIVE
LESS ATTRACTIVE
SMELLY
GOOD MIXER
HAVE SKILLS TO PASS ON
FLEXIBLE
SOCIABLE
SEXY
LIKE EVERYONE ELSE
BALD
HAPPY
LIKEABLE ROGUE
CAPABLE
CARING
USEFULL
ROGUE
NEIGHBOUR
PAST ITS SELL BY DATE
OUT OF TOUCH
OLD FASHIONED
GREY/LLWYD

Mater :	**Pethau sy'n rhwystro'r cenedlaethau rhag cyd-dynnu, a goresgyn y rhwystrau hynny**
Gweithgaredd**:**	**Briciau yn y Wal.**

Rhoddwyd cyfranogwyr mewn i grwpiau bach o 3 neu 4 person a gofynnwyd iddynt ddychmygu cymuned lle mae pobl o bob oed yn gyfeillgar ac yn cefnogi ei gilydd. Yna gofynnwyd iddynt drafod pa rwystrau allai fod i gydlyniad rhwng cenedlaethau, ac i nodi pob un ar fric papur A5 a'u rhoi ar y wal.

Yr ail ran oedd i'r grwpiau ddechrau cymryd bric oedd wedi ei ysgrifennu gan grŵp arall ac awgrymu ateb. Os oedd ateb yn cael ei awgrymu roedd yn cael ei ysgrifennu ar ochr arall y bric a'i rhoi i un ochr. Os nad oedd ateb yn cael ei awgrymu yna roedd yn cael ei adael ar y wal. Roedd pob math o atebion yn cael eu hannog, dim ots pa mor greadigol yr oeddent.

Isod y mae'r rhwystrau a adnabuwyd gan y cyfranogwyr a'u hatebion priodol. Nodwyd hefyd unrhyw rwystrau oedd heb ateb.

Rhwystr	**Atebion**
Rhagfarn ar sail Oed	• Mwy o ddigwyddiadau/partïon cymdeithasol sy'n cysylltu'r cenedlaethau
Amheuaeth	• Pontydd • Mwy o rwydweithio
Dim digon o bethau i'r ifanc ei wneud	• Annog ffrindiau neu bobl ynysedig i ymuno
Hoodies	• Ailaddysgu 'anti-hoodies' drwy fwy o ymgynghori/sgwrsio rhwng cenedlaethau
Problemau Cymdeithasol	• Digwyddiadau anffurfiol cysylltu'r cenedlaethau
Caeth i Gyffuriau	• Darganfod os yw'n broblem go iawn • Difwyno neu addasu cyffuriau
Ystrydebau	• Dangos iddynt ein bod yn wahanol i'r hyn maent yn ei gredu fel arfer • Dod i adnabod y bobl cyn eu barnu
Annhegwch	• Eu haddysgu bod pob dyn a menyw yn cael eu creu yn hafal
Iaith	• Dysgu cymaint â phosib
Dallbleidiwr / Hiliol	• Rhoi eich hun yn eu safle nhw
Diffyg cytundeb	• Mwy o gyfleoedd i ddod at ein gilydd • Hwyluswyr
Grwpiau oedran gwahanol	• Grwpiau gwahanol i weithio gyda'i gilydd i

	gyrraedd nod
Gallai pobl fynd yn ymfodlonus	• Rydych angen pobl sydd yn credu mewn Wtopia
Ofn	• Datblygu hunan barch • Gwenu a chyfarch pobl
Dim sinema	• Ffilmiau sy'n cysylltu'r cenedlaethau yn y Plas
Gangiau	• Dechrau clybiau i ddifyrru trais
Materion Ymddiried	• Eu perswadio fod pobl ar gael i helpu
Alcohol	• Dysgu mwy
Diffyg cydweithrediad	• Gwneud ffrindiau a siarad gyda'i gilydd a siarad a siarad a siarad
Ymrwymiad i rhyngweithio cymdeithasol	• Gŵyl • Dod at ei gilydd
Agwedd mewnfudywr	• Rhyngweithio gyda phobl a chymdeithasau lleol • Dysgu ieithoedd lleol
Ddim yn meddwl cyn gwneud pethau	• Dysgu o gamgymeriadau
Mae angen lleoliad i ysbryd cymdeithasol	• Mae llefydd cwrdd cymdeithasol yn bodoli yn barod
Teulu	• Derbyn cwnsela
Diffyg gwreiddioldeb	• Rhoi rhywbeth iddynt anelu ato
Heriau	• Bod yn ddewr • Camu i fyny
Diffyg parch	• Dod at eich gilydd a siarad
Cyfryngau negyddol	• Gwneud rhywbeth gwahanol • Rhywun enwog i'n helpu • Mwy o bobl o ddiwylliannau gwahanol
Sbwriel	• Ei dacluso • Rhoi pethau hwyl fydd yn gwneud i bobl ei roi yn y bin
Cysylltiadau Trafnidiaeth / Trafnidiaeth Gyhoedddus	• Mwy o fysus a threnau i redeg • Rhwydweithiau gwell • Canfasio • Bws cymunedol • Rhoi mwy o arian tuag at ariannu cwmnïau bws

	• Prisiau petrol rhatach • Bysiau bob hanner awr (mwy effeithlon) • Llwybrau seiclo
Diffyg cyfleoedd	• Mwy o gyfleoedd • Cadw pobl ifanc yn y dre
Dirwasgiad	• Diswyddo'r llywodraeth • Rheoli eich gwario
Arian	• Tynnu prisiau i lawr E.e. Hanner pris neu rywbeth
System Bancio	• Cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth er mwyn edrych i newid y system
Diffyg gwaith / Diweithdra	• Annog y cyngor i greu swyddi
Cloc y dre wedi torri	• Rhoi cnoc i'r cyngor
Dim digwyddiadau cerddorol sy'n cysylltu'r cenedlaethau	
Moesoldeb	
Rhyfel	
Oed	
Not enough collaboration / sharing / caring	
Need a noticeboard for interaction	
Prisiau petrol uchel	
Gwasanaethau Iechyd	

Mater :	**Pethau sy'n rhwystro'r cenedlaethau rhag cyd-dynnu, a goresgyn y rhwystrau hynny**
Gweithgaredd:	**Llythyr i ti dy hun.**

Ar ddiwedd y diwrnod gofynnwyd i gyfranogwyr adlewyrchu ar y diwrnod a'r gweithgareddau cyn meddwl am ffyrdd o annog y cenedlaethau i gyd-dynnu. Roedd y rhain wedi eu rhannu i bethau y gallent eu gwneud yr wythnos hon, y mis hwn ar flwyddyn hon.
Isod y mae crynodeb o'r gweithrediadau perthnasol yr oedd pobl yn barod i'w cymryd. Maent wedi eu categoreiddio gan Dynamix ar ôl y gynhadledd.

YR WYTHNOS HON

Creu Cyfleoedd Newydd

- Trafod y syniad o drefnu cynllun rhwng cenedlaethol lle y mae materion yn gallu cael eu trafod a syniadau eu datblygu
- Dod i nabod mwy o'r bobl ifanc yn fy mhentref
- Gweithio gydag eraill; cymryd rhan yn fy nghymuned
- Byddaf yn meddwl am ffyrdd eraill o ryngweithio gyda mwy o bobl ifanc sydd â'r arbenigedd sydd gen i.
- Trafod gyda fy nghyd-weithiwr sut y gallwn gymryd mantais o'r hyn rydym wedi dysgu U3A/pobl ifanc.
- Edrych ar y bobl ifanc ar fy stryd, byddaf yn gofyn i fy nghymydog os ydynt eisiau i mi warchod eu plant.
- Byddaf yn edrych ar y ffordd ryw'n byw fy mywyd yn y ffordd y gallaf helpu eraill a cheisio bod yn rhan o ddigwyddiadau cymunedol lleol.
- Byddaf yn dechrau grŵp er mwyn ehangu ar fy ngrŵp o ffrindiau a chwrdd pobl newydd.
- Meddwl am y profiad o fod yn rhan o'r diwrnod ymgynghori cysylltu'r cenedlaethau.
- Siarad gyda Bwrdd yr Iaith Cymraeg am y cynlluniau ar gyfer sgwrsio rhwng siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.
- Mae'r wythnos hon yn llawn digwyddiadau sydd ddim yn uniongyrchol yn cynnwys pobl ifanc ond os oes cyfleoedd yn codi i gyfathrebu gyda phobl ifanc byddaf yn cymryd y cyfle hwnnw.
- Cymryd rhan mewn mwy o glybiau
- Dweud helo wrth bawb rwyf wedi cwrdd heddiw nad oeddwn yn eu hadnabod cyn heddiw.

Helpu Eraill

- Nid wyf yn mynd i daflu sbwriel ac rwyf yn mynd i roi pob dim yn y bin
- Meddwl am y pethau rydym wedi bod yn trafod
- Byddaf yn helpu'r henoed i groesi'r stryd ac i dorri eu clawdd.

- Helpu eraill
- Byddaf yn mynd i weld fy mam-gu/tad-cu ac yn dweud wrthynt am y diwrnod hwn
- Gwneud mwy o waith yn yr ardd a mwynhau.
- Rhoi hysbysiadau i fyny yn hysbysebu tiwtora sacsoffon i unrhwy un – Cerddorion Tŵr y Cloc
- Nid wyf yn mynd i daflu sbwriel

<u>Addasu Argoelion</u>

- Ni fyddaf yn meddwl am bobl hŷn fel pobl ddiflas ac oriog
- Byddaf yn darbwyllo fy ffrindiau fod pobl hŷn yn hwyl ac nad ydynt yn ddiflas.
- Bod yn fwy positif
- Darbwyllo fy ffrindiau fod pobl dros 50 yn fywiog hefyd
- Peidiwch neidio i gasgliad am bobl ifanc; trowch y rhyngrwyd i ffwrdd! Peidiwch roi ffydd yn y cyfryngau.
- Darbwyllo fy ffrindiau nad yw pobl dros 50 yn cydymffurfio i'r stereoteip y maent yn ei feddwl
- Chwarae llai o x-box; mynd allan o'r tŷ yn amlach.

Y MIS HWN

Creu Cyfleoedd Newydd

- Cysylltu sesiwn heddiw gyda chyfarfodydd rydym wedi eu trefnu ar gyfer myfyrwyr a'u rhieni yn y cwrs Cymru, Ewrop a'r Byd yn yr ysgol.
- I gyflwyno ein syniadau i'r U3A yn y gobaith y gallwn gychwyn ar fformat i weithio tuag ato.
- Edrych ar ffyrdd y gallwn gynnwys hwn yn ein rhaglen waith o fewn fy swydd
- Darganfod barn pobl leol am wella trafnidiaeth gyhoeddus
- Bod yn bositif wrth arsylwi gweithgareddau pobl ifanc ym Mach a lle'n bosib cymryd rhan hyd yn oed os mai drwy fod yn bresennol ac yn annog yn unig. Yn ogystal, gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod am unrhyw weithgareddau i'r hŷn y gallant eu cofleidio
- Darbwyllo fy ffrindiau nad yw pobl dros 50 yn cydymffurfio i'r stereoteip y maent yn ei feddwl
- Cysylltu â CAMAD i drafod gweithgaredd cerddorol codi arian cymunedol
- Canfod mwy o wybodaeth am beth mae pobl ifanc yn ei wneud yn fy mhentref

Helpu Eraill

- Byddaf yn helpu rhywun gyda rhywbeth y maent ei angen
- Gofyn i fy nain pa gemau yr oedd i'n eu chwarae pan yn ieuengach
- Helpu eraill
- Mynd â cŵn fy anti am dro a'u bwydo nhw
- Byddaf yn helpu fy nghymydog am ddim am arian – dim ond i wneud rhywbeth positif
- Byddaf yn dechrau eu helpu yn yr ardd
- Byddaf yn gofyn i fy nghymydog os ydynt eisiau gofal plant. Ceisio gwneud mwy yn fy nghymuned.
- Byddwn yn cynnig help unigol i unrhyw fyfyriwr sydd ei angen (ee darllen)

Addasu Argoelion

- Bod yn neisach i eraill
- Ceisio blaenoriaethu fy ngweithgareddau ar gyfer yr effaith uchaf
- Chwarae llai o x-box; mynd allan o'r tŷ yn amlach.
- Ymwneud mwy gyda phobl ifanc ym Mach
- Gadael i fi fy hun drio pethau newydd wrth i gyfleoedd godi. Dyw hi byth rhy hwyr! Rydych yn dyfarru pethau nad ydych yn ei wneud yn fwy na'r hyn yr ydych yn ei wneud.
- Troi'r rhyngrwyd i ffwrdd; Peidio rhoi ffydd yn y cyfryngau; Ysgogi
- Byddaf yn ceisio datrys pob dim sydd yn bod yn fy mywyd
- Bod yn oddefgar
- Byddaf yn cofio am ba mor lwcus yr ydw i fy mod yn cael byw yma

Y FLWYDDYN HON

Creu Cyfleoedd Newydd

- Darganfod ffordd o drefnu digwyddiad cymdeithasol cysylltu'r cenedlaethau
- Parhau i drefnu Gŵyl El Sueno Existe gyda syniadau'r diwrnod wedi eu hymgorffori
- Dechrau clwb newydd
- Gwneud gweithgareddau gyda phobl dros 50
- Gwneud yn siŵr fod rhywbeth yn dod allan ohono. Mae hynny werth gwario'r diwrnod yn gwneud.
- Byddaf yn cael swydd ac yn edrych i weld os byddaf yn gallu helpu pobl hŷn
- Ystyried codi rhai pynciau a drafodwyd yn y cyngor cymunedol
- Annog mwy o bobl i ymuno yng ngweithgareddau'r pentref
- Ceisio datblygu prosiect byr yn y dref i ddangos bod ifanc a'r hen yn gallu cyd-weithio.
- Siarad gyda phobl ifanc am grwpiau cerddoriaeth ar gyfer canol y dref a'r clociau.
- Nid wyf yn cynllunio blwyddyn o flaen llaw'r oedran hwn. Rwyf yn cyfrannu wrth i'r cyfleoedd godi.
- (Mewn 4 blynedd) Byddaf yn dechrau cwmni bysiau fy hun a fydd yn helpu'r gymuned i gysylltu gyda phob tref.

Helpu Eraill

- Darbwyllo fy ffrindiau nad yw pobl dros 50 yn cydymffurfio i'r stereoteip y maent yn ei feddwl
- Gwario mwy o amser gyda fy nheulu a ffrindiau
- Byddaf yn golchi car fy nain!
- Byddaf yn rhoi mwy o gymorth i fy nain
- Helpu eraill
- Ceisio gwneud bywyd yn well yn fy nghymuned
- Rwyf yn bwriadu gwneud cymaint ag y gallaf i wneud y byd yn un gwell i bawb.

Addasu Argoelion

- Troi'r rhyngrwyd i ffwrdd! Cyfryngau (peidio rhoi ffydd ynddo); Trin pobl yn deg
- Bod yn berson neisach
- Cadw i fynd! Os nad yw wedi torri, does dim angen ei drwsio!
- Rhoi cyfle i'r syniad flaguro
- Ddim yn siŵr

Materion :	**Canfyddiad pobl hŷn ac ifanc o'u hunain a'i gilydd**
Gweithgaredd:	**Holiadur Dechrau/Diwedd.**

Ar ddechrau'r diwrnod, gofynnwyd i gyfranogwyr gwblhau holiadur cyflym am y ffordd y mae grwpiau oedrannau gwahanol yn cael eu gweld.
Ar ddiwedd y diwrnod gofynnwyd iddynt gwblhau'r un holiadur.
Roedd yr holiaduron yn anhysbys heblaw am y gwahoddiad i gynnwys eu hoedran.
Isod y mae'r data crai a gasglwyd o'r holiaduron.

Gwnaed hyn drwy roi 'x' ar gontinwwm heb ei gylchrhannu oedd ag amrediad o Negyddol i Niwtral i Gadarnhaol, ac felly fe ddylir nodi fod lleoliad pob 'x' yn awgrym ac nid yn werth penodol.

Agwedd Cymdeithas tuag at 11-25

11-25= x
Dros 55 = x
Ddim yn gwybod = x

DECHRAU



DIWEDD



Agwedd Cymdeithas tuag at 50+

11-25= x
Dros 55 = x
Ddim yn gwybod =x

DECHRAU



DIWEDD



Eich agwedd CHI tuag at 11-25

11-25= x
Dros 55 = x
Ddim yn gwybod =x

DECHRAU



DIWEDD



Eich agwedd CHI tuag at dros 50

11-25= x
Dros 55 = x
Ddim yn gwybod =x

DECHRAU



DIWEDD



CASGLIADAU A CHRYNODEB

Crynodeb:

Isod rydym wedi edrych mewn manylder ar y syniadau oedd wedi eu cynnwys yng ngweithgareddau'r diwrnod ac wedi llunio casgliadau.Mae'r casgliadau yn ymwneud â:

1. Sut bydd y gynhadledd yn parhau i gael effaith gynaliadwy ar y dyfodol drwy gynlluniau gweithredol unigolion
2. Casgliadau y gellir eu tynnu ar gyfer llunio sut y mae unrhyw weithgareddau cysylltu'r cenedlaethau yn y dyfodol yn cael eu datblygu.
3. Casgliadau perthnasol eraill i weithgareddau Cymunedau'n Gyntaf.

Cynllun Gweithredu Cyfranogwyr Unigol

Gweithrediadau a adnabuwyd gan unigolion yn cynnwys:	**Tarddiad/Gweithgaredd**
✧ Ymrwymiad i newid ei barn nhw tuag at grwpiau oedrannau gwahanol. ✧ Ymrwymiad i wneud gwahaniaeth i agwedd eu cyfoedion tuag at genhedloedd gwahanol – darparu ymgyrch addysg cyfoedion i chwalu'r rhwystrau ✧ Ymrwymiad i gymryd agwedd mwy cyfeillgar tuag at bobl o genhedloedd gwahanol mewn bywyd bob dydd. ✧ Ymrwymiad i gymryd rhan fwy gweithgar yng ngweithgareddau cyffredinol y gymuned. ✧ Ymrwymiad i wirfoddoli o fewn teuluoedd a'u cymdogaeth er mwyn gwneud mwy gyda chenhedloedd gwahanol	Llythyr i ti dy hun
Dywedodd dau berson ifanc fod y gynhadledd wedi ysbrydoli eu gyrfaoedd yn y dyfodol – canlyniad diddorol ac annisgwyl o'r diwrnod. Penderfynodd un person ifanc i chwilio am waith a fyddai'n ei galluogi i weithio gyda chenhedloedd eraill, gyda'r person ifanc arall yn penderfynu y byddai'n dechrau cwmni bysiau mewn pedair blynedd a fyddai'n taclo'r broblem o drafnidiaeth yn y gymuned.	Llythyr i ti dy hun

Argymelliadau ar gyfer gwaith yn y dyfodol i hyrwyddo gwaith cysylltu'r cenedlaethau

Sylwadau	Tarddiad/Gweithgaredd
Mae dymuniad cryf i redeg mwy o ddigwyddiadau cysylltu'r cenedlaethau yn ogystal â chyfranogwyr yn awgrymu eu bod yn cynnwys mwy o bobl o oedrannau gwahanol yn eu grwpiau eu hunain. Efallai y bydd gwaith datblygu yn y dyfodol i daclo materion cysylltu'r cenedlaethau yn cynnwys ffurfio grŵp cynllunio cysylltu'r cenedlaethau sydd yn cynnwys aelodau o bob oed.	Llythyr i ti dy hun
Roedd nifer yn teimlo nad yw pobl 11-25 mlwydd oed yn cael eu gweld yn gadarnhaol gan gymdeithas. Mae'n debygol fod gan hwn effaith fawr ar ysgogiad a hunan-barch y grŵp oed hwn. Ar y llaw arall roedd y mwyafrif o gyfranogwyr yn teimlo fod pobl dros 50 yn cael eu gweld yn gadarnhaol gan gymdeithas, a hyd yn oed yn fwy cadarnhaol erbyn diwedd y dydd.	Holiadur
Serch hynny, teimlodd y mwyafrif o bobl yn gadarnhaol ar y mwyaf tuag at bobl 11-25 mlwydd oed, gydag ychydig ar yr ochr niwtral. Erbyn diwedd y dydd roedd cam sylweddol tuag at weld pobl 11-25 yn gadarnhaol. Credaf fod hyn o ganlyniad i'r cyfranogwyr yn cael y cyfle i rannu eu teimladau a sgwrsio gyda'i gilydd.	Holiadur
Ar ddiwedd y digwyddiad roedd y mwyafrif o bobl dan 25 wedi gwella eu canfyddiad o bobl hŷn. Ar y llaw arall roedd pobl dros 50 wedi newid eu barn ychydig yn fwy negyddol tuag at eu grŵp oedran eu hunain. A all hyn fod oherwydd cydnabyddiaeth o sut mae eu cenhedlaeth nhw wedi camddeall pobl ifanc?	Holiadur
Mae angen rhoi pwyslais ar adeiladu hunan-barch o fewn y ddau grŵp. Mae'r nifer o sylwadau negyddol o'u cymharu â chadarnhaol neu niwtral yn arwydd clir o hyn.	Corff mewn Bocs
Pwysleisiodd y ddau grŵp eu bod eisiau cael eu gweld fel pobl gyfeillgar a hawdd mynd atynt, i gael eu gwerthfawrogi a'u hystyried fel cyfraniad gwerthfawr i gymdeithas. Roedd y ddau grŵp am gael eu gweld yn aeddfed, profiadol a doeth. Mae'n ddefnyddiol nodi fod y cwestiwn 'sut hoffech gael eich gweld gan eraill' yn ddull gwerthfawr o gyrraedd yr un man ac ysgogi dealltwriaeth rhwng cenedlaethau.	Corff mewn Bocs
Roedd rhai datganiadau yn ddadleuol ar bwrpas e.e. roedd y datganiadau yn dweud 'does gan oedolion ddim byd i'w wneud ' a 'mae oedolion angen amser hamdden' yn bwrpasol yn herio'r syniad mai gweithgareddau pobl ifanc y dylai cymdeithas fod yn ei flaenoriaethu ac mai anghenion pobl ifanc yw'r pwysicaf.	Canfyddwr Barn

Defnyddiwyd hyn i gynhyrchu ymwybyddiaeth fod gan oedolion anghenion hefyd ac adnabod hyn fel tir cyffredin. Dylai taclo canfyddiadau fod wrth wraidd unrhyw brosiectau cysylltu'r cenedlaethau yn y dyfodol.	
Roedd y mwyafrif o'r cyfranogwyr yn teimlo fod gwerth mewn gweithgareddau 'plant yn unig' ac 'oedolion yn unig', sydd yn tanlinellu'r gydnabyddiaeth fod anghenion gwahanol gan grwpiau oedran gwahanol. Serch hynny roedd canran ddigonol o bobl oedd yn anghytuno. Mae hyn yn dangos fod gwerth mewn gweithgareddau sydd yn targedu grwpiau oedran penodol a gweithgareddau sydd yn dod â phob grŵp oedran at ei gilydd, a bod angen cydbwysedd rhwng y ddau ym mhob gwaith datblygu cymunedol.	Canfyddwr Barn
Roedd yr ymdeimlad fod pobl ifanc yn teimlo ysgogiad i newid pethau yn un cadarnhaol ar y mwyaf o fewn y grŵp. Er fe nodwyd mai oedolion ar y mwyaf oedd yn credu hyn, roedd rhai pobl ifanc yn llai argyhoeddedig. Mae angen hyrwyddo'r canfyddiad hwn o bobl ifanc a'i ddathlu yn y gwaith cysylltu'r cenedlaethau yn y dyfodol.	Canfyddwr Barn
Roedd yr amrywiaeth o gemau a gweithgareddau yn ddiddorol, roedd chwaraeon a gweithgareddau strwythuredig yn boblogaidd ac yn ymestyn dros y cenhedloedd. Ond y rhestr hiraf a mwyaf amrywiol oedd gemau a gweithgareddau tu allan ac yn anffurfiol. *"Roeddwn wedi synnu ar nifer y gemau tu allan yr oedd y plant yn eu chwarae. Nid cyfrifiaduron yw popeth wedi'r cyfan."* Gellir defnyddio'r ffaith fod y ddau grŵp oedran wedi dechrau canfod tir cyffredin yn y dadansoddiad o gemau gwahanol y chwaraeon nhw yn eu plentyndod i hyrwyddo gwaith cysylltu'r cenedlaethau yn y dyfodol.	Jig-so: Gemau y chwaraeom
Dewiswyd nifer o lefydd lleol gan bobl fel eu ffefrynnau, gellir defnyddio'r rhain fel lleoliadau posib ar gyfer digwyddiadau neu dripiau yn y dyfodol.	Jig-so: Hoff Lefydd
Roedd ceisiadau am fwy o ddigwyddiadau fel y Gynhadledd Cysylltu'r Cenedlaethau. Roedd nifer o'r atebion i'r rhwystrau a gynigiwyd yn y gweithgaredd Brics yn y Wal yn cynnwys mwy o gyfleoedd i bobl wahanol oedrannau i siarad, rhannu a rhyngweithio. Gallwn lunio rhai casgliadau am natur y cyfleoedd yma o'r brics yn y wal a datganiadau unigolion yn eu llythyrau. Dylai'r cyfleoedd yma fod yn anffurfiol, gweithgareddau cymdeithasol fel nosweithiau ffilm sy'n cysylltu'r cenedlaethau, partïon, gwyliau a digwyddiadau cerddorol. Roedd cynnig hefyd i ychwanegu agenda cysylltu'r cenedlaethau i ddigwyddiadau cymunedol presennol. Teimlodd y cyfranogwyr bod lleoliadau a gofod ar gyfer gweithgareddau cysylltu'r cenedlaethau yn bodoli. Un casgliad y gall ei gynnig yw mai gweithred gyntaf o waith cysylltu'r cenedlaethau yn y dyfodol yw llunio rhestr o leoliadau sy'n bodoli a gweithgareddau cymunedol sydd yn berthnasol i agenda cysylltu'r cenedlaethau.	Brics yn y Wal Llythyr i ti dy Hun

Roedd trafnidiaeth yn fater pwysig i gyfranogwyr, ac yn un o'r rhwystrau oedd wedi cynhyrchu'r mwyafrif o ymatebion. Teimlodd nifer o bobl fod hwn yn rhwystr difrifol i gydlyniad cymunedol a chysylltu'r cenedlaethau.	Brics yn y Wal
Adnabuwyd y broblem gymdeithasol sydd wedi ei gysylltu â phobl ifanc yn ymwneud ag alcohol a chyffuriau. Mae'n glir fod addysg drwy daclo camdybiaethau pobl hŷn o gamddefnydd pobl ifanc o alcohol a chyffuriau ac addysg yn cefnogi pobl ifanc i reoli materion yn ymwneud ag alcohol a chyffuriau, yn cael eu cefnogi'n dda yn y gymuned. Yn bellach, efallai y byddai ymagwedd blaengar i waith cysylltu'r cenedlaethau yn gwneud y mwyaf o brofiad pobl hŷn o fywyd, un ffordd o gael pobl hŷn i gymryd rhan mewn canfod atebion i broblemau cymdeithasol yn ymwneud â phobl ifanc, yn hytrach na theimlo yn ddi-bŵer i wneud mwy na gwylio.	Brics yn y Wal Llythyr i ti dy Hun
Y casgliad mwyaf pwysig i'w gofio o'r gweithgaredd Llythyr i ti dy Hun yw bod ymchwydd cryf o ewyllys da ac ysgogiad i wneud gwahaniaeth ymysg y grŵp. Mae angen harneisio hyn a gwneud y mwyaf ohono.	Llythyr i ti dy Hun
Roedd cydnabyddiaeth o'r cysylltiadau cryf y gellid eu creu drwy brosiectau ac addysg cysylltu'r cenedlaethau. Yn benodol, adnabyddodd y bobl ifanc y rhan yng nghwricwlwm eu Bagloriaeth Cymraeg sydd yn ymwneud â phrosiectau rhyng-genedlaethol (Cymru, Ewrop a'r Byd). Roedd y genhedlaeth hŷn hefyd yn teimlo ei fod yn berthnasol i'w haddysg i oedolion drwy Brifysgol y Drydedd Oes. Dylid gwneud y mwyaf o'r cysylltiadau yma mewn gwaith cysylltu'r cenedlaethau yn y dyfodol.	Llythyr i ti dy Hun
O ganlyniad i'r diwrnod dywedodd nifer o'r cyfranwyr y byddent yn helpu mwy o bobl. Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol ac yn dangos fod parodrwydd i wella cydlyniad cymunedol. Yn ogystal â'r lefel uchel o gymhelliant i ddechrau helpu yn y gymuned, mae potensial clir i ddefnyddio gwaith gwirfoddol rhwng y cenhedloedd i dorri tensiynau cysylltu'r cenedlaethau. Adnabuwyd prosiectau gwirfoddol addas i bobl ifanc, gan gynnwys prosiectau garddio, taclo sbwriel, gwneud gwaith tŷ ac mae'r gwaith gwirfoddol a adnabuwyd ar gyfer pobl hŷn yn cynnwys cefnogaeth llythrennedd i bobl ifanc yn yr ysgolion, gofal plant, prosiectau iaith Gymraeg a rhannu sgiliau. Adnabuwyd prosiectau gwirfoddol addas y gallai uno'r cenhedloedd drwy wirfoddoli, roedd y rhain yn cynnwys ymgyrchu dros faterion lleol, ymgyrchu dros gloc y dre sydd wedi torri, ac ar faterion trafnidiaeth.	Llythyr i ti dy Hun
Mae'n werth nodi fod rhai o'r cyfranogwyr wedi gofyn am gyfleoedd i rannu sgiliau yn ystod y gynhadledd. Roeddent eisiau gwybod pa sgiliau yr hoffai'r bobl ifanc eu dysgu ac archwilio'r posibilrwydd o'u cefnogi nhw drwy rannu gwybodaeth a phrofiad. Yn anffodus nod oedd amser yn ystod y gynhadledd i wneud hyn, ond dylid ei bodi fel thema posib ar gyfer cynhadledd cysylltu'r cenedlaethau arall.	Sylwadau Cyffredinol

Casgliadau Eraill

Sylwadau	Tarddiad/ Gweithgaredd
Gwnaeth yr un nifer o bobl farnu Machynlleth yn gadarnhaol ac yn negyddol. Os yw agweddau'r grwpiau yma yn gynrychiolaeth dda o agweddau'r gymuned tuag at Fachynlleth yna mae'n rhaid nodi hyn ar gyfer unrhyw waith datblygu yn y dyfodol. O'r aelodau hynny sydd yn edrych yn gadarnhaol ar Fachynlleth mae chwyddiant o gefnogaeth a balchder tuag at Fachynlleth a gellir harneisio ar y brwdfrydedd a'i ddathlu er mwyn hyrwyddo tyfiant. Yn bellach, dylid edrych yn agosach y rhesymau y mae hanner arall yn gymuned yn teimlo'n negyddol am yr ardal, er mwyn edrych ar yr hyn sydd angen ei wella yn yr ardal. Noder: Mae Cymunedau'n Gyntaf Bro Ddyfi wedi ymgymryd â darn o ymchwil sylweddol yn eu hadroddiad ar gadw pobl ifanc ym Machynlleth.	Canfyddwr Barn
Teimlodd y mwyafrif o gyfranogwyr fod yr ymgynghoriadau werth eu gwneud. Mae hyn yn anogaeth gadarnhaol i Gymunedau'n Gyntaf Bro Ddyfi. Mewn nifer o ardaloedd yn y DU, mae'r cysyniad fod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu hymgynghori gormod wedi cael ei awgrymu, ond mae'r casgliad o'r canlyniad hwn yn rhoi'r golau gwyrdd i ymgynghoriadau pellach yn yr ardal.	Canfyddwr Barn